# Polisi Diogelu

## Nodau a phwrpas y polisi

Diogelu yw'r hyn rydyn ni'n ei wneud i hyrwyddo lles plant ac oedolion, a'u hamddiffyn rhag niwed. Mae wrth wraidd popeth a wnawn.

Rydyn ni'n dilyn yr un egwyddorion diogelu ar gyfer gweithgareddau ac aelodau Girlguiding, all-lein ac ar-lein.

Os oes gennych bryder diogelu – all-lein neu ar-lein – rhaid i chi ei riportio.

Mae'r polisi hwn yn egluro'r hyn rydyn ni'n ei ddisgwyl wrth ein gwirfoddolwyr a'n staff. Mae hefyd yn amlinellu sut rydyn ni'n amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl.

Mae'n hanfodol eich bod yn dilyn y polisi hwn a'r gweithdrefnau diogelu a diogelu digidol sy'n cyd-fynd ag ef.

Rhaid i'r polisi hwn gael ei ddilyn gan holl wirfoddolwyr, aelodau a holl staff Girlguiding a gyflogir gan The Guide Association boed yn barhaol, am gyfnod penodol neu ar gontract.

Mae hefyd yn berthnasol i bawb sy'n defnyddio ein gwasanaethau ar-lein. Mae'r rhain yn cynnwys gwefannau, platfformau digidol a chyfryngau cymdeithasol. Mae'n berthnasol yn y DU ac ar gyfer Tiriogaethau Tramor Prydeinig.

Mae'n cwmpasu holl weithgareddau Girlguiding ar unrhyw lefel, gan gynnwys y rhai sy'n digwydd ar-lein. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Unrhyw weithgareddau sy'n digwydd ar y we y mae Girlguiding yn ei ddarparu.

- Unrhyw weithgareddau Girlguiding sy'n digwydd ar blatfformau digidol nad ydynt yn gysylltiedig â Girlguiding, fel Facebook neu Zoom neu ddyfeisiau, fel ffonau symudol neu gyfrifiaduron.

Mae’r tîm diogelu wrth law i helpu. Os oes angen cymorth arnoch chi gydag unrhyw beth sy’n ymwneud â diogelu, neu os oes gennych bryder, cysylltwch â ni.

## Datganiad polisi

Rydyn ni wedi ymrwymo i ddiogelu pob oedolyn a phlentyn, all-lein ac ar-lein.

Mae gan bawb yr hawl i fyw yn rhydd rhag camdriniaeth, camfanteisio, niwed ac ofn, ac i fod yn ddiogel ac yn iach.

Rydyn ni’n cydnabod bod rhai pobl yn arbennig o agored i niwed. Gall hyn fod oherwydd rhyw agwedd ar eu hunaniaeth neu eu hamgylchiadau.

Er y gall niwed ddigwydd all-lein, ar-lein, ac weithiau'r ddau, rydyn ni’n cydnabod y gall rhai mathau o niwed ddigwydd ar-lein yn unig, neu ar-lein gan fwyaf. Mae’n bwysig eich bod yn gwybod y gwahanol fathau o niwed, gan gynnwys niwed ar-lein, fel eich bod yn gallu adnabod pryderon am aelodau ifanc, neu wirfoddolwyr eraill.

Nid oes rhaid i chi fod yn sicr am bryder cyn i chi gysylltu â thîm diogelu ein pencadlys, felly os oes gennych unrhyw amheuaeth, rhowch wybod. Rydyn ni’n cydnabod ac yn ymateb i bob math o niwed, all-lein ac ar-lein, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Camdriniaeth – mae hyn yn cynnwys camdriniaeth gorfforol, emosiynol, rhywiol, esgeulustod, domestig, gan gynnwys cam-drin nad yw'n ddiweddar, cam-drin ar-lein a cham-drin plentyn i blentyn.
- Camfanteisio – fel camfanteisio'n rhywiol ar blant a chamfanteisio'n droseddol ar blant.

- Niwed – gan gynnwys bwlio, meithrin perthynas amhriodol, hunan-niweidio ac arferion traddodiadol niweidiol (e.e. anffurfio organau cenhedlu benywod, priodas dan orfod).
- Meysydd arbenigol – lles meddyliol neu alluedd meddyliol a radicaleiddio.

Gall rhai pryderon diogelu godi ar-lein hefyd neu gellir eu hwyluso gan dechnoleg. I gael mwy o wybodaeth am ddiogelu digidol, gweler y weithdrefn ddiogelu ddigidol.

Os ydych chi'n credu bod rhywun mewn perygl o unrhyw un o'r mathau hyn o niwed, mae'n rhaid i chi ei riportio.

Gallwch ddysgu mwy am wahanol fathau o niwed a chamdriniaeth oddi wrth Ymddiriedolaeth Ann Craft a'r NSPCC.

Drwy ddilyn y polisi hwn, byddwch yn helpu i greu gofod diogel lle gall ein holl aelodau gael profiad gwych fel geid, all-lein ac ar-lein. Mae'n caniatáu i unrhyw un riportio pryder neu wneud datgeliad.

## Sut mae Girlguiding yn diogelu plant ac oedolion

- Rydyn ni'n cymryd pob pryder o ddifri. Mae tîm diogelu ein pencadlys wrth law i'ch cefnogi gydag unrhyw bryderon a allai fod gennych. Os ydych yn credu y gallai rhywun fod mewn perygl o niwed, all-lein neu ar-lein, mae'n rhaid i chi ei riportio.
- Mae gennym strwythur diogelu cadarn ar waith ar gyfer staff a gwirfoddolwyr.
- Rydyn ni'n helpu ein gwirfoddolwyr i gefnogi aelodau i fod yn ddiogel ar-lein.
- Rydyn ni'n recriwtio gwirfoddolwyr drwy ddefnyddio ein polisi recriwtio a fetio.

- Rydyn ni’n defnyddio ein gweithdrefn ddiogelu i reoli cyhuddiadau yn erbyn gwirfoddolwyr.
- Mae gennym wastad fesurau iechyd a diogelwch ar waith, sy’n seiliedig ar y gyfraith a chanllawiau statudol.
- Mae gennym arweinwyr diogelu ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, sydd yno i gefnogi gwirfoddolwyr sy'n ymwneud ag ymdrin â phryderon diogelu.
- Rydyn ni’n rhannu pryderon a gwybodaeth gydag asiantaethau statudol lle bo'n briodol. Er enghraifft, lle ceir pryderon sylweddol am rywun sy'n gweithio gyda phlant. Neu lle credwn fod rhywun mewn perygl sylweddol o niwed, neu wedi cael ei niweidio.
- Rydyn ni’n sicrhau bod pryderon diogelu yn cael eu rhannu gyda rhieni neu ofalwyr lle bo'n briodol, oni bai y gallai gwneud hynny roi eu plentyn mewn mwy o berygl.
- Mae gennym ganllawiau ynglŷn â digwyddiadau ar y cyd, ymwelwyr allanol, a chynnwys rhieni.

*Bwrdd Ymddiriedolwyr y Guide Association sydd â'r cyfrifoldeb terfynol am ddiogelu.*

## Disgwyliadau

Mae Girlguiding yn disgwyl i’r holl wirfoddolwyr a staff wneud y canlynol:

- Dilyn ein gweithdrefn ddiogelu a’n gweithdrefn ddiogelu ddigidol.
- Riportio bob pryder, honiad a datgeliad o fewn 24 awr (neu’n gynt os yw’n argyfwng) i dîm diogelu’r pencadlys a’ch comisiynydd. Peidiwch byth â chymryd yn ganiataol bod rhywun arall wedi riportio pryder.
- Hysbysu tîm diogelu'r pencadlys am unrhyw ymchwiliad parhaus neu flaenorol i chi neu rywun y mae gennych berthynas arwyddocaol ag ef sy'n ymwneud ag unrhyw honiad, pryder neu ddatgeliad diogelu

plentyn neu oedolyn. Mae'n bosib bod yr ymchwiliad wedi'i gynnal gan yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, cyflogwr, neu fudiad arall rydych yn gwirfoddoli gyda nhw. Mae perthynas arwyddocaol yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, aelodau o'r teulu, partneriaid, ac aelodau o'r un cartref. Gallwch gysylltu â'ch comisiynydd am gymorth.

- Trin digwyddiadau ar-lein yn yr un ffordd â digwyddiadau diogelu all-lein.
- Byddwch yn wyliadwrus, fel eich bod yn sylweddoli pan fydd rhywbeth yn peri pryder.
- Gweithio gyda thîm diogelu'r pencadlys a'ch comisiynydd i weithredu lle bo pryder.
- Gwneud pob ymdrech i sicrhau bod merched ac aelodau ifanc yn deall pam a sut i gadw'n ddiogel ar-lein.
- Gwneud yn siŵr eich bod yn gwneud popeth posib i atal mynediad at gynnwys anghyfreithlon neu amhriodol ar ddyfeisiau Girlguiding neu ddyfeisiau a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau Girlguiding. Er enghraifft, defnyddio rheolaethau rhieni.
- Sicrhau bod gennych y caniatâd cywir cyn tynnu a defnyddio ffotograffau.
- Dileu lluniau ar ôl digwyddiadau, yn unol â'n gweithdrefn rheoli gwybodaeth.
- Osgoi cyswllt un-i-un gyda merch neu aelod ifanc. Peidiwch byth â chysylltu â merch neu aelod ifanc o dan 14 oed heb ganiatâd rhiant neu ofalwr. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os gwnaethant gysylltu â chi yn gyntaf - oni bai ei fod yn argyfwng.
- Ystyried cynhwysiant a hygyrchedd pan fyddwch yn delio â materion diogelu. Er enghraifft, gwneud addasiadau i gefnogi aelodau anabl neu'r rhai ag anghenion ychwanegol, gan gynnwys gwneud cynlluniau addasu, y dylid eu hadolygu'n flynyddol.

- Cwblhau a pharhau i adnewyddu'r hyfforddiant diogelu gorfodol sy'n berthnasol i'ch rôl. Byddwn yn anfon nodyn atgoffa atoch pan fydd yn rhaid i chi adnewyddu eich hyfforddiant.
- Dilyn cod ymddygiad Girlguiding ar-lein fel y byddech all-lein.
- Gwneud yn siŵr eich bod yn sefydlu ac yn defnyddio cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol. Gweler ein gweithdrefn ddiogelu ddigidol am fwy o wybodaeth.
- Sicrhau eich bod yn gwneud popeth posib i atal mynediad at gynnwys anghyfreithlon neu amhriodol ar ddyfeisiau Girlguiding neu ddyfeisiau a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau Girlguiding. Er enghraifft, defnyddio rheolaethau rhieni.

## Riportio pryder

Mae'n bwysig eich bod yn gwybod arwyddion a dangosyddion niwed. Rhaid i chi hefyd wybod sut i ymateb i unrhyw bryderon, honiadau neu ddatgeliadau a'u riportio.

Os oes gennych bryder diogelu mae'n rhaid i chi ei riportio o fewn 24 awr, neu cyn gynted â phosib os yw'n argyfwng.

Bydd tîm diogelu'r pencadlys yn ymateb i bob pryder ac e-bost o fewn 5 diwrnod gwaith. Mewn achos o argyfwng neu achos brys, byddant yn gweithredu'n brydlon. Gallwch gysylltu â'ch comisiynydd am gymorth.

Mae ein tîm diogelu hefyd yn arwain ar bryderon bwlio ac aflonyddu. Gweler ein polisi gwrth-fwlio ac aflonyddu am fwy o wybodaeth.

## Tiriogaethau Tramor Prydeinig

Rhaid i Aelodau mewn Tiriogaethau Tramor Prydeinig gadw at ddeddfwriaeth leol wrth gymhwyso'r polisi hwn, lle bo'n berthnasol.